

Cymraeg yn gyntaf

Cofnodi'r dewis iaith

Parchu'r dewis iaith

Cyfarch yn ddwyieithog

Cofnodi'r dewis iaith

# Cymraeg: beth sydd wedi newid?

Canllaw manwl ar gyfer

## PARTNERIAID sydd wedi eu COMISIYNU

Dwyieithog ar gyfer y cyhoedd

Cymraeg yn gyntaf

Cyfarch yn ddwyieithog

Cymraeg yn y gweithle



RHONDDA CYNON TAF



# Cyflwyniad

## Beth mae'r Safonau'n ei olygu ar gyfer partneriaid sydd wedi eu comisiynu?

Bwriad Safonau'r Gymraeg yw hyrwyddo, hwyluso a normaleiddio defnydd y Gymraeg yng Nghymru, yn ogystal ag egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae dros 170 o safonau i gyd, sydd wedi'u rhannu'n bum maes. Bydd y crynodeb hwn yn esbonio beth y mae Safonau'r Gymraeg yn ei olygu ar gyfer partneriaid sydd wedi eu comisiynu a sut mae disgwyl i'r holl bartneriaid sydd wedi eu comisiynu fodloni'r safonau penodol sy'n berthnasol iddyn nhw. Gwiriwch gyda'r Rheolwr Contract, y Swyddog Cydymffurfio neu wirio'ch contract i weld pa safonau sy'n berthnasol i chi yn benodol. Os oes gennych chi gwestiwn am y ddeddfwriaeth, cynnal sesiynau hyfforddiant neu weithredu'r Safonau, cysylltwch â'r Swyddog Cydymffurfio drwy ddefnyddio [swyddogiaith@rctcbc.gov.uk](mailto:swyddogiaith@rctcbc.gov.uk).

## Meysydd y Safonau

- **Cyflenwi Gwasanaethau** Mae hyn yn ymgorffori unrhyw wasanaeth rydyn ni'n ei gynnig i'r cyhoedd neu unrhyw beth a gynhyrchwn y bydd y cyhoedd yn ei weld. Os bydd unrhyw safon yn ymwneud â chyhoeddi dogfennau ar-lein, mae'n cyfeirio at y *rhyngrwyd*.



**Awgrym!** Dyma'r safonau y mae'n hynod bwysig bod partneriaid sydd wedi eu comisiynu yn ymwybodol ohonyn nhw, ac yn cydymffurfio â nhw.

- **Llunio Polisiâu** Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n cyfrannu at, waith ymchwil, gwneud neu lunio polisiâu – neu sy'n gyfrifol am y fath waith.
- **Gweithredu** Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau mewnol ac sy'n ymwneud â gweithwyr e.e. dogfennau cyflogaeth, sicrhau bod polisiâu ar gael, gweithdrefn gwyno ac ati
- **Cadw Cofnodion** Dyma fater i bob adran a'i charfanau ei reoli. Hynny yw, sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r holl weithiau mae cwsmeriaid wedi defnyddio gwasanaethau Cymraeg, a nodi'r Gymraeg fel eitem sefydlog ar bob agenda (yn debyg i UFA).
- **Hybu** Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, ei hwyluso a'i thyfu yn Rhondda Cynon Taf. Mae gofyniad i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf erbyn 2021. Mae'n rhaid glynu at y geiriad sy'n rhan o Safonau'r Gymraeg 'i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' ym mhob achos, sy'n golygu:
  - **Rhaid** i'r Gymraeg gael ei rhoi lle bydd hi'n cael ei darllen yn gyntaf; naill ai i'r **chwith** neu **uwchben** y Saesneg.
  - **Ddylai fod dim gwahaniaethu** rhwng y dyddiad cau, amser cyflwyno, amser ymateb, amser cyhoeddi, ac ati, etc rhwng y fersiynau Cymraeg a'r fersiynau Saesneg.
  - **Ddylai'r testun Cymraeg ddim bod yn wahanol o ran amlygrwydd e.e. o ran lliw, ffont neu faint y testun o'i gymharu â'r Saesneg ac ati.**

Gellir cymhwyso hyn oll hefyd at bob maes gwasanaeth, adran a gwasanaethau sydd wedi eu comisiynu wrth ymgysylltu â chwsmeriaid a darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein e.e. **rhaid** defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf wrth gyfarch yn bersonol neu ar y ffôn.

**Darparu Gwasanaethau** Mae'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn berthnasol i;

## Cyhoeddiadau, dogfennau a ffurflenni

Os ydych chi'n paratoi, cyhoeddi neu'n cyflwyno unrhyw un o'r canlynol fel rhan o'r gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu:

- Cyhoedduswydd
- Deunydd hysbysebu
- Tystysgrifau
- Llyfrynau, taflenni, pamffledi neu gardiau
- Ffurflenni ar gyfer defnydd cyhoeddus
- Arwyddion
- Deunydd ar gyfer y cyhoedd
- Rheolau sy'n berthnasol i'r cyhoedd
- Dogfennau ar gyfer defnydd cyhoeddus

Rhaid ichi sicrhau bod y dogfennau / arwyddion ar gael yn Gymraeg (dwyieithog sy'n well), ac nad ydych chi wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Os ydych chi'n cynhyrchu unrhyw ffurflenni neu ddogfennau sydd â fersiynau ar wahân (Cymraeg a Saesneg), yna mae'n rhaid ichi nodi ar y fersiwn Saesneg bod fersiwn Gymraeg ar gael.

## Achlysuron cyhoeddus / Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd

Os ydych chi'n trefnu unrhyw achlysuron cyhoeddus, neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd ac yn rhan o'r gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu, rhaid i chi:

- Hyrwyddo'r digwyddiad yn Gymraeg sy'n cynnwys yr holl ddeunyddiau hysbysebu a gwahoddiadau;
- Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn yr achlysur. (Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, arwyddion a chyhoeddiadau; cofiwch: Cymraeg yn gyntaf!)
- Trefnu bod cyfieithydd yn bresennol os bydd mwy na 10% o'r gynulleidfa / defnyddwyr yn datgan eu bod am ddefnyddio'r Gymraeg yn yr achlysur. (Dylech chi sicrhau bod digon o amser ar gael i wneud y trefniadau hyn, e.e. o leiaf wythnos).



**Arfer da neu flaen gynllunio:** Man cychwyn da fyddai nodi pa ddogfennau 'blaenoriaeth' neu 'fwaf poblogaidd' sydd gennych chi' a, trefnwch iddyn nhw gael eu cyfieithu. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddsbarthu neu gyhoeddi'r dogfennau yma yn y dyfodol. Anfonwch geisiadau am gyfieithiad i [cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk](mailto:cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk) - efallai bydd tâl ychwanegol yn cael ei godi ar gyfer gwaith cyfieithu.

## Gwasanaethau Derbynfya

Rhaid i chi hefyd sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael fel rhan o'r gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a ddylai siaradwyr Cymraeg ddim cael eu trin yn llai ffafriol na siaradwyr Saesneg wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

- Dylai staff y dderbynfa sy'n gallu cyflwyno gwasanaeth llawn yn Gymraeg wisgo bathodynau/cortynnau gwddf i ddangos eu gallu iaith. Mae modd i ddysgwyr gael bathodyn/cortyn gwddf 'Dysgwr' hefyd.
- Dylech chi arddangos poster sy'n dangos bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.



**Arfer da neu flaen gynllunio:** Gwiriwch dderbynfa eich adeilad er mwyn sicrhau bod hysbysiadau a chyhoeddiadau wedi'u harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Awgrym!** Mae bathodynau/cortynnau gwddf/posteri ar gael o Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor; cysylltwch â'r Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg drwy e-bost [swyddogiaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:swyddogiaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk) er mwyn casglu nwyddau.

## Gwefan ac apiau

Sicrhau bod unrhyw gynnwys y mae gennych chi gyfrifoldeb amdano, sy'n ymwneud â gwasanaeth wedi'i gomisiynu gan y Cyngor, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar eich gwefan, gyda'r cyfieithiad cywir. Dylech chi hefyd sicrhau bod eich tudalen Saesneg yn dangos bod yna dudalen Gymraeg ar gael, a gwirio bod y dolenni ar eich tudalennau yn gywir. Eto, ddylai'r Gymraeg ddim cael ei thrin yn llai ffafriol a dylai'r wefan/tudalennau fod yn gwbl weithredol. Dylai pob rhyngwyneb a dewislen fod ar gael yn Gymraeg hefyd.



**Arfer da neu flaen gynllunio:** Anfonwch geisiadau am gyfieithiad i: [cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk](mailto:cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk) - efallai bydd tâl ychwanegol yn cael ei godi ar gyfer gwaith cyfieithu. Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw diweddarau eich tudalennau gwe, ac nid y Cyfieithwyr.

## Cyfyngau Cymdeithasol

Pan fyddwch chi'n cyflwyno gwybodaeth am wasanaeth sydd wedi ei gomisiynu gan y Cyngor trwy gyfyngau cymdeithasol, sicrhewch nad yw'r Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn golygu bod unrhyw wybodaeth/manylion yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y ddwy iaith. Os yw rhywun yn cysylltu â'ch cyfrif cyfyngau cymdeithasol gyda chwestiwn yn Gymraeg, rhaid i chi ymateb yn Gymraeg. I ateb cwestiwn yn Gymraeg, dylech ofyn i siaradwr Cymraeg yn eich carfan sy'n ddigon hyderus i ysgrifennu ymateb.



**Arfer da neu flaen gynllunio:** Anfonwch restr o'r wybodaeth, ymadroddion neu'ch geiriau/brawddegau cyffredin at yr Uned Gyfieithu ([cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk](mailto:cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk)), fel bod gan eich carfan nifer o dempledi Cymraeg - efallai bydd tâl ychwanegol yn cael ei godi ar gyfer gwaith cyfieithu. Yna gallwch chi ddefnyddio'r rhain i ddechrau cyhoeddi manylion yn ddwyieithog neu ymateb i'r defnyddwyr gwasanaeth yn Gymraeg.

## Gwasanaethau Cymraeg

Os ydych chi'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid ichi hyrwyddo'r gwasanaeth yn weithredol a sicrhau bod deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu'r gwasanaeth yn Gymraeg. Os ydych chi'n darparu gwasanaeth sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu ar gyfer eich gwasanaeth Saesneg nodi bod y gwasanaeth hefyd ar gael yn Gymraeg.



**Arfer da neu flaen gynllunio:** Cynnal adolygiad o'r gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal â'r deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu ar gyfer y ddwy iaith. Sicrhewch nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Os oes modd i'ch carfan neu adran ddechrau cynnig fersiwn Gymraeg o wasanaeth presennol, byddai hyn yn cael ei ystyried yn arfer da!

## Cyrsiau Addysg

Fel rhan o wasanaeth sydd wedi ei gomisiynu gan y Cyngor, os ydych chi'n cynnig cwrs addysg i'r cyhoedd, mae'n rhaid i chi asesu'r angen i gynnig y cwrs yn Gymraeg, ac yna cyhoeddi'r asesiad ar y wefan.



**Arfer da neu flaen gynllunio:** Cysylltwch â phartneriaid eraill sydd wedi eu comisiynu i ganfod gofynion hyfforddiant Cymraeg posib, ac yna'n cynnig cyrsiau Cymraeg ar sail consortia.

## Negeseuon allan o'r swyddfa a llofnodion e-bost

Dylai negeseuon allan o'r swyddfa a llofnodion e-bost fod yn ddwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae gennych chi gyfrifoldeb i sicrhau bod eich teitl swydd a'ch manylion cyswllt ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.



**Arfer da neu flaen gynllunio:** Ar gyfer gweithwyr / gwirfoddolwyr sydd ddim yn hyderus o ran ysgrifennu negeseuon 'allan o'r swyddfa' sylfaenol, rydyn ni'n annog defnyddio rhifau yn hytrach na dyddiau, misoedd, bore neu brynhawn. Mae templedi o'r rhain eisoes wedi'u creu. Cysylltwch â'r Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg, [Swyddogiaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:Swyddogiaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk) i gael copi. Anfonwch eich llofnodion e-bost i [cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk](mailto:cyfieithu-translation@rctcbc.gov.uk)

## Llunio Polisiâu

Os bydd gofyn i chi ddiweddarau polisi neu baratoi un newydd yn ystod eich contract sy'n mynd i effeithio ar y gwasanaeth rydych chi'n ei gynnig i'r Cyngor, mae'n ofynnol i chi ystyried sut y gallai'r polisi gael ei lunio (neu os oes modd newid y polisi presennol) fel bod y penderfyniad polisi yn cael effeithiau cadarnhaol, neu'n cynyddu'r effeithiau cadarnhaol o ran:

- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Rhywbeth i'w gofio...

Mae yna lawer o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff sydd wedi dangos diddordeb mewn dysgu'r iaith. Dylai pob aelod o staff dderbyn cyfarwyddyd ar Safonau'r Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaid bob amser.

Am ragor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg neu am ddysgu Cymraeg, cysylltwch â'ch Rheolwr Contract neu'r Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg ar [Swyddogiaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:Swyddogiaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk)



### Nodyn Atgoffa!

- **Rhaid** i'r Gymraeg ymddangos yn **gyntaf**, bob tro: naill ai uwchben neu ar ochr chwith y testun Saesneg, a pheidio ag ymddangos yn wahanol o ran lliw, ffont neu faint.
- Ddylai dim bod unrhyw wahaniaethu rhwng y dyddiad cau, amser cyflwyno, amser ymateb neu amser cyhoeddi rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg.